# Y Pwyllgor Cyllid

## FIN(3) 11-08 p(2) Cyllideb atodol Llywodraeth Cynulliad Cymru 2007-08: adroddiad drafft

**Dyddiad: Dydd Iau 10 Gorffennaf 2008**
**Amser: 9.30 - 11.30am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3**

### Diben y papur

1. Y papur atodedig yw adroddiad drafft y pwyllgor ar y Cyllideb atodol Llywodraeth Cynulliad Cymru 2007-08.

### Cam i'w gymryd

2. Gwahoddir Aelodau i drafod a chytuno ar y drafft.

# Adrodiad Drafft

## Cynulliad cenedlaethol cymru

**Adroddiad gan y pwyllgor cyllid**

# GEN-LD7095 - Cynnig Cyllideb Atodol 2007-08 (23 Mehefin 2008)

## Cefndir:

1. Mae Rheol Sefydlog Rhif 27 yn datgan:

27.23 Ni chaniateir i gynnig cyllideb atodol a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 27.21 gael ei wneud naill ai:

(i) nes bod y Pwyllgor Cyllid wedi cyflwyno adroddiad ar y cynnig; neu

(ii) nes bod tair wythnos wedi mynd heibio ar ôl iddo gael ei gyflwyno, os nad yw'r Pwyllgor Cyllid wedi cyflwyno adroddiad ar y cynnig.

27.24 Caiff adroddiad y Pwyllgor Cyllid argymell newidiadau yn y symiau a gynigiwyd yn y cynnig cyllideb atodol ar yr amod na fyddai effaith net yr amrywiadau hynny'n cynyddu neu'n gostwng cyfansymiau'r adnoddau neu'r arian parod a gynigiwyd yn y cynnig cyllideb atodol.

2. Gosodwyd y cynnig cyllideb atodol hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ddydd Mawrth 24 Mehefin 2008. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad arno gan y Pwyllgor Cyllid, felly, yw dydd Mawrth 15 Gorffennaf.

3. Ysgrifennodd Cyfarwyddwr Cyllid y Llywodraeth, Dr Christine Daws, hefyd at y Pwyllgor Cyllid i egluro'r rhesymau dros ofyn i'r Cynulliad awdurdodi'r newid ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Amgaeir testun y llythyr hwn fel atodiad. Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar i Dr Daws am ei hesboniad a daethpwyd i'r casgliad nad oedd angen galw am unrhyw dystion pellach cyn cyflwyno adroddiad.

## Yr angen am y cynnig cyllideb atodol diweddaraf

4. Pasiwyd y cynnig cyllideb atodol diwethaf ar gyfer 2007-08 ar 11 Mawrth 2008 ychydig cyn diwedd y flwyddyn ariannol. O safbwynt y cwmpasiad ar gyfer 'Gwasanaethau Gweinidogol Eraill', rhoddodd awdurdod i ddefnyddio adnoddau hyd at £7,092,000. Mae'n ddiddorol nodi bod hyn wedi lleihau'r swm a awdurdodwyd cyn hynny gan gynnig cyllideb atodol Tachwedd 2007 (£7,801,000).

5. Yr oedd llythyr Dr Daws yn datgan bod addasiad cyfrifyddol a wnaed ynglŷn â chost yr ymchwiliad E. coli wedi arwain at orwariant o ryw £400,000. Os na dderbynnir y cynnig cyllideb atodol diweddaraf, byddai'r swm ychwanegol hwnnw (heb ei awdurdodi) yn cael ei ystyried o fod yn swm afreolaidd ac yn arwain at gyfiawnhau barn yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfrifon 2007-08. Mae'r cynnig cyllideb atodol diweddaraf hwn yn ceisio cyfuno'r cwmpasiad 'Gwasanaethau Gweinidogol Eraill' gyda'r cwmpasiad ar gyfer 'Gweinyddiaeth Ganolog'. Gan fod 'Gweinyddiaeth Ganolog' wedi tanwario o ran mwy o arian na'r hyn a gafodd ei orwario ar gyfer 'Gwasanaethau Gweinidogol Eraill', nid oes angen i'r Llywodraeth geisio adnoddau ychwanegol yn gyffredinol.

## Casgliadau

6. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi na fyddai'r cynnig cyllideb atodol diweddaraf wedi bod yn angenrheidiol petai cynnig cyllideb atodol mis Mawrth heb leihau'r swm a awdurdodwyd o ran adnoddau ar gyfer 'Gwasanaethau Gweinidogol Eraill'. Mae hyn yn awgrymu nad oedd y Llywodraeth yn ymwybodol o gyfanswm y gwariant o ran E. coli ar gyfer 2007-08 hyd at yn union cyn diwedd y flwyddyn ariannol neu ar ôl hynny hyd yn oed, o bosib. Felly, byddai gan y pwyllgor ddiddordeb gwybod y rhesymau dros y gorwario a phaham na ddarganfuwyd hynny tan ei bod yn hwyr iawn yn y broses.

7. Dywedai llythyr Dr Daws fod y Llywodraeth, wrth symud ymlaen, yn cynnig adolygu'r cwmpasiadau llai ac ystyried eu cyfuno lle bo angen heb golli'r tryloywder sy'n hanfodol i gynorthwyo craffu effeithiol. Yn benodol, mae'r Llywodraeth yn cynnig uno'r cwmpasiadau 'Gweinyddiaeth Ganolog' a 'Gwasanaethau Gweinidogol Eraill' ar gyfer 2008-09 a blynyddoedd sy'n dilyn. Nid yw'r Pwyllgor Cyllid yn gwrthwynebu uno'r ddau gwmpasiad hwn, mewn egwyddor, ac mae'n fodlon bod hyn yn cael ei gyflawni ar gyfer 2007-08 hefyd. Serch hynny, mynegwyd pryder gan y pwyllgor ynglŷn â thryloywder yn ystod proses osod cyllideb 2008-09 ac felly mae'r pwyllgor yn gofyn i'r Llywodraeth geisio barn y pwyllgor cyn gwneud unrhyw newidiadau pellach o'r fath.

8. O ystyried natur y tanwariant a chyn lleied y tanwariwyd, a chan fod y Pwyllgor Cyllid yn gytûn ynglŷn ag uno'r ddau gwmpasiad, mae'r Pwyllgor Cyllid yn fodlon argymell bod y Cynulliad yn cytuno i'r cynnig cyllideb atodol diweddaraf. Fodd bynnag, mae'r egwyddor y dylai'r Llywodraeth geisio awdurdod gan y Cynulliad ar gyfer defnyddio adnoddau yn reol pwysig o fewn ein fframwaith democrataidd ac ni ddylid ei danseilio. Yn ogystal, mae'n ddyletswydd ar swyddogion cyfrifyddu i weithredu o fewn terfynau adnoddau sydd wedi'u hawdurdodi gan y Cynulliad.

9. Ar gyfer y dyfodol, ni fyddai'r pwyllgor fel arfer yn fodlon i gynnig cyllideb atodol gael ei gyflwyno ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol os mai unig bwrpas y cynnig fyddai rhoi awdurdod ôl-weithredol ar gyfer gwariant ychwanegol cyn i'r cyfrifon gael eu harchwilio. Byddai hyn yn arbennig o bwysig petai swm ychwanegol yn ganlyniad i reolaeth ariannol gwael gan fod y pwyllgor, yn y sefyllfa hwnnw, yn ystyried y dylai'r Cynulliad elwa ar adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol ynglŷn â'r rhesymau am y swm ychwanegol a cheisio barn y Pwyllgor Archwilio cyn gofyn am awdurdod ar gyfer y symiau o dan sylw.

**Angela Burns AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid**

Text of letter dated 23 July 2008 from the Welsh Assembly Government Finance Director to the Finance Committee Clerk

# Supplementary Budget 2007/08

The Assembly Government will today table a Supplementary Budget covering the 2007-08 financial year. In view of its technical nature I thought that it would be helpful to outline the context for the small changes that the Supplementary Budget seeks to make. I am writing to you in the temporary absence of the Minister for Finance and Public Service Delivery.

Our experience of the first year of the operation of the Government of Wales Act 2006 has led us to conclude that the inclusion of a number of small individual ambits within the overall budget has not facilitated the effective management of resources across the Assembly Government.

Going forward, we therefore propose to review the smaller ambits that appear in the budget and consider amalgamating where appropriate - but without losing the transparency that is vital to aid effective scrutiny. Specifically, through future Final and Supplementary Budgets we propose to merge, for 2008/09 and later years, the Other Ministerial Services (OMS) and the Central Administration ambits. The case for merging these two ambits is supported by the fact that they cover expenditure of a broadly similar nature (OMS covers a variety of small budgets related to corporate activities such as communications and statistics).

We also propose to merge these two ambits retrospectively for 2007/08, which is the main effect of the Supplementary Budget tabled today.

Making the change for 2007/08 will facilitate comparisons of expenditure between years.  Moreover, we believe that merging these two ambits is the best approach for addressing the implications of a necessary manual accounting adjustment made during the preparation of the annual accounts. The accounting adjustment, made in relation to expenditure by the E-Coli Inquiry, indicates that expenditure on this in 2007/08 will exceed the budgeted level. A downside of creating small individual budget ambits is that if a small overspend emerges it is unlikely to be offset by underspends elsewhere in the ambit, as tends to happen in larger departments. In this case the indications are that the small overspend on the inquiry is likely, without the Supplementary Budget, to lead to expenditure within the overall OMS budget being slightly higher than the level stated in the ambit by some £400k. By merging the OMS and Central Administration ambits in the Supplementary Budget, a larger forecast underspend on the Central Administration ambit in 2007/08 should more than offset the higher expenditure on the Inquiry and thereby ensure that overall expenditure within the new merged ambit, entitled Central Services and Administration, is within budget.

We also propose to take the opportunity provided by this Supplementary Budget to make a small adjustment to the text of the Children Education, Lifelong Learning and Skills income ambit (Schedule 2, Part 5), to explicitly cover income in respect of student loans. This adjustment would bring the text in respect of the Budget for 2007/08 into alignment with that included in the 2008/09 Final Budget, as approved by the Assembly in January 2008.

These are the only two changes that the Supplementary Budget proposes, and have no net impact on the total Assembly Government budget in 2007/08.

I hope that this letter helps to set the context of the Supplementary Budget tabled today and that you find it useful.

**Dr Christine Daws**
**Finance Director**